

Ysgol I D Hooson

Canllawiau presenoldeb i rieni a gofalwyr.

Sicrhau presenoldeb da!

Ydi hi'n bwysig fod plant yn yr ysgol?



Dyma Jason, Cadi a Cassie. Mae ganddynt bresenoldeb o 90%!

Swnio'n dda tydi!

Ond ein targed ysgol ar gyfer pob plentyn ydi 96%. Felly mae 90% yn siomedig!

Mae'r tri yn methu **hanner diwrnod** bob wythnos.

Pedair wythnos mewn blwyddyn!

Bydd effaith sylweddol ar gynnydd y tri! Mae'n debygol iawn, gyda phresenoldeb o 90%, fydd 'run o'r tri yn cyrraedd ei botensial llawn.

Oeddech chi'n gwybod?

Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd, heb fethu amser sylweddol yn bwysig i ddyfodol eich plentyn. Mae plant sydd a chanran presenoldeb isel yn gwneud yn waeth mewn arholiadau.

39 wythnos sydd mewn blwyddyn ysgol.

Colli ysgol, colli addysg, colli cyfle!

Presenoldeb 100%	Colli dim ysgol	Cyfle gorau i lwyddo! Gwych!
Presenoldeb 95%	Colli 10 diwrnod o ysgol.	Dealladwy. Ychydig o salwch. Cyrraedd y targed. Da iawn!
Presenoldeb 90%	Colli 20 diwrnod o ysgol. Pedair wythnos!	Anhebygol os nad oes salwch difrifol. Pryder am batrwm presenoldeb. Cysylltu a'r gwasanaethau cefnogi
Presenoldeb o 85%	Colli 30 diwrnod. Chwech wythnos!	Pryder sylweddol am batrwm presenoldeb. Asiantaethau cefnogi yn rhan o'r broses.
Presenoldeb o 80%.	Colli 40 diwrnod. Wyth wythnos o ddysgu!	Pryder sylweddol iawn. Effaith sylweddol ar gynnydd plentyn.
Presenoldeb o 75%	Colli 50 diwrnod. Naw wythnos o ddysgu!	Effaith sylweddol ar ddysgu a chynnydd y plentyn.

Gweithio mewn partneriaeth

Rydym yn cysylltu a rhieni i fynegi pryderon am bresenoldeb disgyblion. Mae asiantaethau allanol megis y gwasanaethau cymdeithasol addysg yn medru helpu, ac mae ganddynt rol monitro a chefnogi. Carem gyd weithio a rhieni a gofalwyr i sicrhau cynnydd mewn presenoldeb. Cysylltwch a ni os allwn helpu mewn unrhyw fodd. Byddwch yn ymwybodol y gall presenoldeb gwael arwain at Ddirwyon Cosb penodedig.

Gwyliau yn ystod y tymor.

Anogwn rieni a gofalwyr i beidio cymeryd gwyliau yn ystod y tymor. Dylech ysgrifennu at y Pennaeth i wneud cais am wyliau awdurdodedig yn ystod y tymor. Ar gyfer y flwyddyn gyfredol, bydd hyd at 5 diwrnod yn cael ei awdurdodi.

Prydlondeb yn y bore.

Pam ddylai'r plant gyrraedd yr ysgol ar amser?

1. Bydd plentyn yn dawel ac yn barod i ddechrau dysgu
2. Byddant yn bresennol ar gyfer cychwyn gweithgareddau'r dydd.
3. Mae cychwyn y dydd yn gosod patrwm gwaith da ar gyfer y gwersi i ddod.
4. Mae cyrraedd yn hwyr yn creu embaras i blentyn.
5. Cyfrifoldeb rhieni a gofalwyr yw sicrhau fod eu plant yn cyrraedd ar amser. Ond y plant sy'n dioddef! Mae traffig ar y ffordd bob dydd, ond mae rhai'n llwyddo i gyrraedd ar amser bob dydd hefyd!

Unrhyw bryderon, sylwadau neu gwestiynau, mae croeso i rieni a gofalwyr gysylltu a'r ysgol yn y modd arferol.